

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Beryl Jones (Nantglyn) a Selwyn Davies (Cefn Meiriadog) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd, a Gwyn H. Davies (Hiraethog) sy'n parhau i gael gofal yn yr Inffirmari. Cofiw'n yn ein gweddïau hefyd am Elfyn Davies (Saron) sy'n gobeithio cael dod adre yn y dyddiau nesaf yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Abergele, a hefyd Airys Jones (Peniel) fu yn Ysbyty Glan Clwyd am lawdriniaeth yr wythnos ddiwethaf. Treuliodd Jean Jones (Peniel) ychydig nosweithiau yn yr ysbyty yn ddiweddar hefyd. Mae eraill sy'n mynd trwy gyfnod digon anodd ar hyn o bryd ac eraill yn cael amrywiol driniaethau. Cyflwynwn y cleifion oll i ofal yr Arglwydd, gan ofyn iddo gysgodi drostynt a thros eu hanwyliaid yr un modd. Diolch i chi hefyd am eich dymuniadau da i Arwel gafodd lawdriniaeth yn Ysbyty Abergele yn ystod yr wythnos. Rydym yn gwerthfawrogi eich gweddïau a'ch consŷrn.
- Mae eraill wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Cyflwynwn hwythau yn dyner i ofal yr Arglwydd.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Miss W J Roberts a Mrs Menna Owen (Yr Hen Ddeondy); Mrs Gwenfyl Jones (Yr Hen Ficerdy); a Mrs Elizabeth Hughes (Plas Eleri). Hyderwn eu bod yn profi gofal a grym ein gweddïau drostynt.
- Llongyfarchiadau i Rob ac Einir Davies (Saron) ar enedigaeth mab, Nedw Efan, brawd bach i Wil, Elias a Robin. Diolchwn i Dduw gyda hwy am ei ddaioni. Llongyfarchiadau hefyd i Glyn a Myra Davies (Saron) fydd yn dathlu 50 mlynedd o fywyd priodasol dydd Gwener nesaf.

I ddod

- **GWASANAETHAU DIOLCHGARWCH HENLLAN**, dydd Llun, Hydref 12fed. Bydd plant Ysgol Henllan yn cymryd rhan yng ngwasanaeth y prynhawn am 2.00 a Mrs Mair Beech Williams yn rhoi sgwrs i'r plant, ac yna yng nghyfarfod yr hwyr am 7.00, ceir pregeth gan y Parch. Dewi Tudur. Croeso cynnes i bawb.
- **CYMDEITHAS CHWIORYDD PENIEL, GROES A NANTGLYN** yn cyfarfod yn HWB, Dinbych nos Lun, Hydref 12fed am 7.30.
- **OEDFA DDIOLCHGARWCH UNDEBOL LLANSANNAN** nos Fercher, Hydref 14eg yn Festri Capel Coffa Henry Rees am 7.30 gyda'r Parch. Eric Jones yn pregethu. Bydd y casgliad yn mynd tuag at waith Coleg y Bala. Croeso cynnes i bawb.
- **FFAIR HYDREF CAPEL PENIEL** ar Hydref 17eg yn Eirianfa, Dinbych o 10.00 - 11.30.
- **GŴYL DDIOLCHGARWCH LLANEFYDD** – Gwasanaeth gan blant yr ysgol bore Llun, Hydref 19fed, a phregeth gan Aneurin nos Fercher, Hydref 21ain am 7.00.
- **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** yng Nghapel Saron nos Fawrth, Hydref 20fed am 7.30 yng nghwmni Mrs Dilys Hughes, Trefnant.
- **CYFARFOD DIOLCHGARWCH GROES** nos Wener, Hydref 23ain am 7.00 gyda'r Parch. Hugh Pritchard yn pregethu.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 4^{ydd} Hydref 2015

Darlleniad y Dydd

Salm 118:1-4

(BCND tud.559 / BCN: tud.511)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org


hyfforddiantdawn.com

Bore da i chi, a chroeso i oedfaon y dydd heddiw a chofion cynnes at bawb sy'n methu ymuno yn yr oedfaon oherwydd amrywiol amgylchiadau. Lle bynnag yr ydym, gweddïwn am fendith Duw i'n gilydd ac i'r gymdeithas o'n cwmpas ac i'r byd yn ei holl angen. Wrth ysgrifennu'r myfyrdod yma mae adroddiadau ar y newyddion am gyrchoedd awyr lluoedd Rwsia ar dargedau yn Syria yn y cefndir ac erbyn y Sul, diau y bydd y newyddion yma wedi dwysáu.

Cawsom her arbennig yn y Cwrdd Chwarter yr wythnos ddiwethaf gan Lywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, y Parch. Ddr R. Alun Evans, pan draddododd ei anerchiad ar 'Iesu'r Cymod'. Roedd yn adleisio'i neges yn ystod Eisteddfod Meifod eleni. Cawsom olwg personol iawn ganddo wrth iddo gyflwyno hanes ei dad i ni. Roedd ei dad yn fyfyrwr yng Ngholeg Diwinyddol Bala Bangor ar ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf ac er i lawer o'i gyd-fyfyrwyr ddatgan gwrthwynebiad cydwybodol i'r Rhyfel – a gwrthod holl bropaganda'r wladwriaeth (a'r eglwysi ymneilltuol Cymraeg ar y pryd), penderfynu mynd i'r Rhyfel a wnaeth. Er hynny, fel aelod o'r Corff Meddygol Brenhinol yr aeth, er lleddf fu poen y milwyr. Wrth i'r byd ailafael yn ei arfau ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd, roedd ei dad yn wrthwynebydd cydwybodol o argyhoeddiad dwfn ac fe fu'n gefnogol iawn i sawl un o'r un argyhoeddiad bryd hynny.

Argyhoeddiad dwfn y Llywydd ydi mai dull hen ffasiwn ac aneffeithiol iawn yw ceisio delio hefo gelyn ar sail filitaraidd a thrwy ddulliau rhyfel o bob math. Wrth ddilyn esiampl Iesu'r Cymod, ni fedrwn ond delio mewn ffordd wahanol â'n gelynyon. Lladd yr elyniaeth, nid lladd y gelyn a wnaeth Iesu, a dyna ddylem ninnau fel ei ddilynwyr. Nid oes modd cyfiawnhau rhyfel ar unrhyw gyfri a rhybuddiodd ni rhag derbyn cynsail y cyfiawnhad dros ryfel 'cyfiawn'. Nid oes gennym awdurdod na chomisiwn oddi wrth Iesu i ryfela o gwbl – dim ond trwy fod yn weithredwyr tangnefedd a heddwch y byddwn yn ufuddhau i Grist. Gwelai mai dim ond yng Nghrist, oherwydd grym y groes a'r 'cymod yn y gwaed' y daw'r byd i heddwch parhaol a chyfiawn. Gosod sylfaen dial a wna rhyfel. Gosod sylfaen heddwch a wna cymod.

Wrth i ni ystyried geiriau'r Salm yn ein darlleniad heddiw, tybed nad ydi heddwch a chymod yn rhan o drugaredd neu haelioni Duw yn y byd y cyfeiria'r salmydd tuag ato bedair gwaith ar ddechrau'r salm? "Diolchwch i'r Arglwydd – mae ei haelioni yn ddiddiwedd."

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 4^{ydd}
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion Dafydd, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mercher – 7^{fed}
- **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
 - **Adnabod Addoli** yn Ffestri Llansannan am 8.00.
- Iau – 8^{fed}
- **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
 - **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener – 9^{fed}
- **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer ieuenctid bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf – 11^{eg}
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Celfyn Williams yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 4^{ydd} Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair **am 1.30** (sylwch ar yr amser) ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Mawrth – 6^{ed} Cynhelir Pwyllgor y Gymdeithas yng Nghefn Meiriadog am 7.30.
- Sul nesaf – 11^{eg} Bydd Gwion a Sarah yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma – 4^{ydd} Ar ddechrau'r oedfa am 10:00, bydd Aneurin yn bedyddio Jakob John, mab bach Aaron a Cheri Middleton sydd bellach yn byw yn Sweden. Yna, bydd Gwion a Sarah yn arwain oedfa Diolchgarwch i'r teulu a bydd cyfle i fynd i'r Ffestri i gael paned ac i'r plant gael blas o'r Ysgol Sul wedi hynny.
- Sul nesaf – 11^{eg} Cynhelir Cyfarfod Gweddi Diolchgarwch am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10. Cynhelir Pwyllgor Cymdeithas y Beibl am 7.30.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 4^{ydd} Bydd Gwion a Sarah yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 11^{eg} Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 4^{ydd} Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch yr ieuenctid a'r plant yn Saron am 10.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi Diolchgarwch ym Mheniel am 10.00 a'r Ysgol Sul am 2.00.
- Gwener – 9^{fed} Cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch ym Mheniel am 7.00 gyda'r Parch. John Owen, Rhuthun yn pregethu. Croeso i bawb.
- Sul nesaf – 11^{eg} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 4^{ydd} Bydd y Parch. Brian Wright yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 11^{eg} Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 4^{ydd} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 11^{eg} Bydd Gwion a Sarah yn arwain oedfa deuluol i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Manylion Cyswilt

- Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com 📞 01745 870618 📞 07775 701102
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 07849 591163
Sarah – 📧 sarah@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📞 07900 308461
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Rhufeiniaid 5:1-5 (BCND tud.168 / BCN: tud.154)